# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 24 Medi 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r  Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones a Pearl Evans.

**2. Rob Parsonson – Parc Sglefrio**
Cafwyd diweddariad ar y datblygiad gan gynrychiolwyr Parc Parch.  Y Cyngor yn hoff iawn o'r syniad o gael parc sglefrio yn Pantdreiniog ac wedi bod yn gefnogol o'r cychwyn.  Diolchwyd i'r criw am eu hamser ac eu holl waith ar y prosiect.

**3. Datgan Diddordeb**
Eitem 8-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**4. Materion Brys**
**4.1** CCTV Stryd Fawr – y Cyng. Einir Williams wedi holi am ddiweddariad.
Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd ynglŷn a chael benthyciad ac hefyd am gyfraniad tuag at gamerâu yn maes parcio Cae Star.
**4.2** Gwasanaeth bws Arriva i Gerlan – siomedig iawn nad yw'r gwasanaeth wedi ail-gychwyn ar ôl y cyfnod clo. Y Clerc i anfon llythyr yn datgan ein siom.
**4.3** Goleuadau stryd Rhes Jâms -  cwynion gan drigolion y stryd wedi eu hanfon at Gyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.  Y Cyng. Paul Rowlinson am holi am ddiweddariad.
**4.4** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant.  Angen eu paentio/adnewyddu.  Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2020, yn ddarostyngedig i leoliad y cyfarfod.  Angen ei newid i '...a gynhaliwyd yn rhithiol, dros Zoom'.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais apêl wedi ei wrthod, felly bydd angen i'r arwyddion cael eu tynnu lawr.
**6.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gwelededd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Cyng. Rheinallt Puw i holi am ddiweddariad.
**6.3** Lloches bws Sgwar Rachub – cais wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle. Disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd am beth yw'r cam nesaf ac hefyd gyda gosod lloches bws newydd ym Mraichmelyn.
**6.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd.
**6.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Dim ymateb hyd yn hyn.
**6.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn.
**6.7** Cadw Cymru'n Daclus – Lleoedd Lleol ar gyfer natur – cais yn llwyddiannus. Bydd gardd Bywyd Gwyllt yn cael ei osod yn Llys Dafydd.
**6.8** Tô lloches bws Adwy'r Nant, wedi ei adnewyddu.
**6.9** Bin halen Stryd y Ffynnon – angen ei adleoli gan ei fod yn symud lawr y ffordd wrth gael ei daro gan geir.

**7. Cyfarfod Blynyddol 2020**
Oherwydd y pandemig Cofid-19, penderfynwyd gohirio'r cyfarfod blynyddol ac bydd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r holl gynrychiolwyr yn aros yn eu lle.

**8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Dim cyfarfod wedi bod. Ond pawb yn hynod falch o'r Ffair Haf a drefnwyd gan y swyddogion Byw a Bod. Braf iawn oedd gweld gymaint o fywyd ar y Stryd Fawr.

**9. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**
Dim i'w adrodd

**10. Maes parcio Gerlan**
Pawb yn awyddus i symud ymlaen gyda'r prosiect. Cafwyd crynodeb o'r holl gostau a hefyd copi drafft o'r ffurflen gais am y benthyciad.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2020'
**11.1** E-bost gan y Cyng. Rheinallt Puw – cais i osod diffibriliwr tu allan i Gorffwysfan. Penderfynwyd trefnu cyn gynted a bo modd.
**11.2** E-bost gan Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd – ymgynghoriad ffonau talu cyhoeddus. Y Cyngor yn awyddus cael cadw yr un wrth Londis, gan bod defnydd ohono.
**11.3** E-bost gan Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – cais i fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor i drafod Prosiect Tirwedd y Carneddau. Y Cyngor yn fodlon ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf.
**11.4** E-bost gan David Allsup ynglŷn a parcio tu allan i Ysgol Llanllechid. Y Cyng. Michael Williams i drefnu cyfarfod gyda cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned, yr ysgol a Chyngor Gwynedd, ar y safle i drafod sut i ddatrys y broblem.
**11.5** Cais gan Donna Roberts i osod plac cof ar fainc ger Y Sior. Bydd rhaid i'r cais gael ei gyfeirio at y Cyngor Sir.

**11.6** E-bost gan Emyr Roberts – ynglŷn a chyflwr y ffyrdd – Lon Pâb a'r ffordd fyny am Pen y Bryn. Mae'r mater eisoes wedi ei godi gyda Cyngor Gwynedd ers ddechrau'r flwyddyn ac mae'r gwaith ar y gweill.
**11.7** E-bost gan Emyr Roberts – ynglŷn a parcio ar y Stryd Fawr. Penderfynwyd anfon y manylion at Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.
**11.8** E-bost gan Gyngor Cymuned Llandwrog – y Cyngor yn gefnogol iawn o gael mwy o drefn ar y gwasanaeth torri gwair, ond eisoes gyda trefniant ble mae'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu tuag at doriadau ychwanegol.
**11.9** E-bost gan Gyngor Cymuned Llanllyfni – codi tâl am fynediad i'r Wyddfa – mae'r Cyngor Cymuned yn bendant yn cefnogi'r syniad. Mae rhywbeth angen ei wneud ynghylch y sefyllfa.
**11.10** Cyngor Tref Nefyn – argyfwng tai – y Cyngor yn eu cefnogi 100% ond am y sylw 'mai ond tai fforddiadwy ellir eu codi'. Buasai hyn yn rhwystredig iawn i bobl sydd a awydd symud ymlaen i eiddo mwy yn y dyfodol.
**11.11** Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad cyhoeddus: CCA Drafft. Angen anfon unrhyw sylwadau erbyn 13eg o Dachwedd. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.
**11.12** Un Llais Cymru – rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell sydd ar gael.
**11.13** Lansiad ar lein Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – nodwyd yr ohebiaeth.
**11.14** Cyfarfod rhithiol i groesawu Asesydd Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru i Wynedd – nodwyd yr ohebiaeth.
**11.15** Digwyddiad ar-lein – swyddogion Byw a Bod yn y gymuned – nodwyd yr ohebiaeth.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

**C18/1159/13/LL**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C19/1203/13/DT**

| | |
|---|---|
| Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0018/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0057/16/LL**

| | |
|---|---|
| Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda | Lleoli 4 cynhwysydd dros dro i'w defnyddio ynghlwm â'r trac cartio newydd<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C20/0716/13/LL**

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trois modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda
**Penderfyniad:** Pryderon am y sefyllfa parcio.

**C20/0152/13/LL**

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C20/0586/13/DT**

51 Braichmelyn, Braichmelyn

Estyniadau a newidiadau
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C20/0622/13/LL**

Pen Bre Ffordd Y Mynydd, Rachub

Creu croglofft o fewn yr annedd bresennol ynghŷd a gosod ffenestri tô
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**17. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Gorffennaf, Awst a Medi) | £906.81 |
| CThEM (Gorffennaf, Awst a Medi) | £226.80 |
| C Jackson - llwybrau | £2432.25 |
| C Jackson- mynwent | £800.00 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £25.43 |
| Zurich – yswiriant blynyddol | £1687.56 |
| Scottish Power – Gorffwysfan | £188.67 |
| Cyngor Gwynedd – toriadau gwair | £7609.03 |
| Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio | £16859.28 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen – Ysgoloriaeth | £150.00 |
| Dŵr Cymru – Llys Dafydd | £10.60 |
| Partneriaeth Ogwen – lloches bws | £275.00 |
| Partneriaeth Ogwen – Gorffwysfan | £40.00 |